# DARLLEN ADOLYGIADAU A THEYRNGEDAU

**Adolygiad Myrddin ap Dafydd o Mwy na Bardd: Bywyd a gwaith Dylan Thomas (Kate Crockett).**

Darllenwch yr adolygiad yma gan y Prifardd Myrddin ap Dafydd, o lyfr a gyhoeddwyd ym mlwyddyn canmlwyddiant Dylan Thomas, gan yr awdur Kate Crockett. Gallwch ddod o hyd i'r adolygiad yng nghylchgrawn Barddas, sef y cylchgrawn Cymraeg ar gyfer pawb sydd â diddordeb mewn barddoniaeth a barddoni. Mae'n bosib darllen hwn hefyd ar-lein ar http://www.barddas.com/barddas/index.php?option=com_content&view=article&id=151:adolygiad-o-mwy-na-bardd-bywyd-a-gwaith-dylan-thomas-kate-crockett&catid=62:llyfrau-barddas&Itemid=70

Darllenwch yr adolygiad, yna ewch drwyddo eto gan uwcholeuo neu danlinellu y geiriau neu gymalau sy'n enghraifft o iaith bositif. Ceisiwch fod mor fanwl ag sy'n bosib wrth ddewis , gan osgoi dewis llinellau diddiwedd. Ewch am yr UNION eiriau sy'n cyfleu canmoliaeth.

Yna ymatebwch i'r cwestiynau sy'n dilyn.

## TASGAU TRAFOD

Ym marn Myrddin ap Dafydd, beth yw cryfderau Kate Crockett fel awdures y gyfrol hon? Hynny yw, beth mae hi wedi llwyddo i'w wneud yn dda?

Petaech chi'n gwybod dim am Dylan Thomas, beth fyddech chi wedi ei ddysgu amdano wedi darllen yr adolygiad hwn?

Yn eich barn chi, beth yw'r geiriau neu'r brawddegau mwyaf effeithiol o ran perswadio'r darllenydd i brynu'r llyfr hwn?

## GWAITH YMCHWILIO

Ewch i chwilota mewn papurau newydd, papurau bro, ar-lein ac mewn cylchgronau a casglwch amrywiaeth o adolygiadau positif a negyddol. Gwnewch restr ddefnyddiol o eiriau a chymalau y gallech chi eu dysgu a'u defnyddio.

## BEIRNIADU'N BOSITIF

Dewiswch lyfr neu ddarn o waith celfyddydol arall sydd wedi creu argraff arnoch chi.

Ysgrifennwch adolygiad ohono.

Ceisiwch ddefnyddio iaith gadarnhaol/bositif neu negyddol addas, gyda thystiolaeth gadarn i gefnogi eich pwyntiau.